

# Cymdogaeth 20 Munud - Sesiwn 4 - Ymgysylltu

## Canllaw Athro

### Cymdogaeth 20 Munud - pwrpas y gweithgaredd

#### Sesiwn 4 - Ymgysylltu:

- Disgrifiwch y broblem yr ydych wedi'i chanfod yn eich ardal leol ac eglurwch pam mae'n broblem
- Awgrymwch ffordd o ddatrys y broblem gan egluro pam mae'n ateb da
- Gallwch naill ai greu poster neu ysgrifennu at eich cynrychiolydd lleol yn amlinellu eich problem

| Gweithgaredd   | Amser dechrau | Parhad   |
|--|---------------|----------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Map meddwl</li> </ul> |               | 10 munud |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• a) Poster</li> </ul>  |               | 30 munud |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• b) Llythyr</li> </ul> |               | 30 munud |

### Offer

- Taflenni gwaith wedi'u cwblhau o'r sesiwn blaenorol.
- PowerPoint Sesiwn 4.
- Naill ai deunydd i greu posteri
- Neu binnau ysgrifennu a phapur (neu gyfrifiaduron) i ysgrifennu llythyr.

| Gweithgaredd   | Amser       |
|--|-------------|
| <b>Map meddwl</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu map meddwl yn manylu ar y broblem rydych chi am dynnu sylw ati</li> <li>• Beth yw'r broblem? Pam mae hyn mor bwysig? Sut hoffech ei gweld yn cael ei ymdrin â hi a pham?</li> </ul>                          | 10 munud    |
| <b>Poster</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu poster am y broblem rydych chi am dynnu sylw ati. Gellir gwneud hyn yn unigol, mewn parau, neu mewn grwpiau.</li> </ul>  | 40-45 munud |
| <b>Llythyr</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifennwch at eich cynrychiolydd/cynrychiolwyr lleol am y broblem rydych chi am dynnu sylw ati.</li> <li>• Dywedwch wrthyn nhw beth yw'r broblem, pam mae'n bwysig, a beth yr hoffech ei weld yn newid.</li> </ul> | 10 munud    |

